

CROESO I DDINEFWR

DINEFWR YN LLANDEILO YW CARTREF NEWYDD BEYOND THE BORDER AC RYDYN NI WRTH EIN BODD I FEDRU EICH CROESAWU I YSTÂD YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL GER LLANDEILO, SIR GAERFYRDDIN.



© NT Dinefwr

Yn rhan o hanes Cymru a Gwarchodfa Natur Genedlaethol o'r 18fed ganrif, bu Dinefwr yn wlad hudolus o rym a dylanwad am dros 2,000 o flynyddoedd â ganddi le eiconig yn hanes Cymru. Cynhaliodd yr Arglwydd Rhys pwerus, Tywysog y Deheubarth lys yn Ninefwr a dylanwadodd ar benderfyniadau yng Nghymru.

Yn sefyll yn falch yng nghanol yr ystâd mae Newton House, cartref disgynyddion teulu'r Arglwydd Rhys am fwy na 300 mlynedd. Fel ystâd y gofalyd amdani gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers 1990, mae wedi'i hadfer a'i hagor i ddathlu cyfoeth Dinefwr ac fel lle i fwynhau, ymlacio ac adnewyddu.

Mae gan Ddinefwr hanes helaeth o ddiwyddiadau diwylliannol, gyda'n rhaglen ddiweddaraf o arddangosiadau wedi eu hysbrydoli gan Newton House ei hun a'r casgliadau sydd wedi'u cadw mewn stordy am flynyddoedd, yn dadorchuddio rhai o'r gwrthrychau am y tro cyntaf.

Maent yn myfyrio ar yr agweddau niferus ac amrywiol ar fywyd yn Ninefwr dros y canrifoedd, gan roi cipolwg o hanes yr ystâd a'i phobl. Mae ein harddangosfa Archaeoleg y Cartref yn cynnwys darnau a deunyddiau o'n casgliadau sy'n cynnig cipolwg hynod ddiddorol o'r deunyddiau adeiladu hanesyddol a'r technegau addurniadol a ddefnyddiwyd yn Newton House. Rydyn ni hefyd yn darparu llwyfan i artistiaid cyfoes arddangos eu gweithiau, fel Hannah Walters yng nghyfres newydd Y Cabinet ac arddangosiad gwych o weithiau a gynlluniwyd gan Ainsley Hillard, a fydd yn agor ym mis Gorffennaf 2021.



Ymwelwch â'r ty i weld yr arddangosfeydd, a chymerwch eiliad i ymlacio ar y soffas yn yr Ystafell Arlunio; gallwch hyd yn oed fwynhau'ch coffi ar y llawr gwaelod neu gymryd peth amser i loetran yn y siop lyfrau ail law a gweld pa drysorau y byddwch chi'n eu darganfod .

Dyluniodd y ddau weledydd, George a Cecil Rice y dirwedd wych o'r 18fed ganrif, sydd wedi'i gwarchod fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol, o ddolydd llawn blodau i goetir hynafol trwchus, mae'r cyfan yma i chi ei ddarganfod.


Archwiliwch y rhwydwaith helaeth o lwybrau troed drwy'r holl ystâd; cerddwch drwy'r Parc Ceirw i weld y fuches o geirw neu Wartheg mawreddog y Parc Gwyn yn eu cartref hynafol o flaen y tŷ.

CROESO I'R DINEFWR - NT DINEFWR TEAM



"IF YOU TAKE A HANDFUL OF THE SOIL OF DINEFWR AND SQUEEZE IT IN YOUR HAND, THE JUICE THAT WILL FLOW FROM YOUR HANDS IS THE ESSENCE OF WALES"

*Wynford Vaughan Thomas
(Newyddiadurwr a Darlledwr Cymraeg)*



COEDWIGOEDD A BYD NATUR

MAE'R TIR YNG NGHOEDWIG CASTELL DINEFWR YN UN O 109 GWARCHODFA NATUR Y MAE YMDDIRIEDOLAETH NATUR DE A GORLLEWIN CYMRU'N GOFALU AMDANYNT. MAE REBECCA KILLA, SWYDDOG YR YMDDIRIEDOLAETH NATUR YN SIR GAERFYRDDIN, YN RHANNU HANES BYR GYDA NI, A RHYWFANT O'R BYWYD GWYLLT A'R FFAWNA RHYFEDDOL Y BYDDWCH CHI'N EU GWELD WRTH GRWYDRO O AMGYLCH DINEFWR.

Ar un adeg roedd y coedwigoedd o'ch cwmpas yn rhan annatod o ystâd yr Arglwydd Dinefwr. Fodd bynnag, yn ystod y 1970au, cafodd llawer o'r ystâd ei chwalu a'i gwerthu. Gan gydnabod gwerth bywyd gwyllt eithriadol y coedwigoedd hyn, lansiodd aelod lleol o'r Ymddiriedolaeth Natur, Ian Watt, apêl gyhoeddus i alluogi prynu'r goedwig a'r Castell gan yr Ymddiriedolaeth Natur. Ymgysylltodd pobl leol â'r apêl a sicrhawyd rhydd-ddaliad y coed a Chastell Dinefwr ym 1979. Wedi hynny, adferwyd Castell Dinefwr gan Cadw.

Mae'r coedwigoedd, a elwir yn Warchodfa Natur Castle Woods, yn gorchuddio 25 hectar o dir ac erbyn hyn maent yn eiddo i Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru ac yn cael eu rheoli'n ofalus er budd bywyd gwyllt.

Mae'r warchodfa yn goetir llydanddail a derw, ynn, ffawydd a sycamorwydd yw'r coed mwyaf cyffredin. Roedd llwyfen yn gyffredin nes i glefyd llwyfen

yr Iseldiroedd daro yn y 1970au, ond mae bellach yn profi adferiad. Ar hyn o bryd rydyn ni'n colli llawer o'n coed ynn oherwydd clefyd yr ynn. Mae'r coetiroedd hynafol hyn yn cynnwys nifer fawr o 'goed hynafol', sy'n hynod fawr a hen. Maen nhw eu hunain yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt arall, fel cen, ystlumod ac infertebratau arbennig.

Cadwch eich llygaid yn agored am adar sy'n nythu yn y coed fel Cnocell y Coed a Chnocell y Cnau. Ymhlith yr adar bridio eraill y gallech eu gweld yn y warchodfa mae'r Gwybedog Brith, Tingoch a'r Dringwr Bach. Ymhlith yr adar ysglyfaethus yn y warchodfa mae Boda, Gwalch y Garn a'r Dylluan Frech.

Mae blodau coetir ar eu gorau yn gynnar yn yr haf, pan mae carped o Glychau'r Gog o dan y coed yn llenwi'r aer ag arogl hyfryd. Mae blodau gwanwyn eraill yn cynnwys Bresych y Cŵn, Briallu a Blodau'r Gwynt.

Efallai y bydd ymwelwyr tawel hefyd yn ddigon ffodus i gael cipolwg ar Geirw Braenar, gan fod yr anifeiliaid cyfrinachol hyn yn byw ar y cribau coediog.

I ddarganfod mwy ymwelwch â www.welshwildlife.org/nature-reserve/castle-woods-llandeilo/



LLANDEILO

RYDYM WEDI GOFYN I CERI PHILLIPS, UN O'N LLEISIAU NEWYDD, WISGO HET YR HANESYDD LLEOL AC ARWEINYDD TAITH A RHANNU YCHYDIG RHAGOR O WYBODAETH AM LANDEILO GYDA NI.



Mae Llandeilo, a elwid yn hanesyddol yn Llandeilo Fawr, wedi bod yn ganolfan ddiwylliannol i Gymru ers canrifoedd. Cychwynnodd y dref fel clas (sefydliad mynachaid) bychan, a sylfaenwyd gan Teilo Sant yn y 6ed ganrif. Nid oes llawer iawn yn hysbys am fywyd y sant cynnar hwn o Gymru, ond fe fyddai wedi bod yn bwysig

yn ei ddydd – roedd yn cydoesi â nawddsant Cymru, Dewi, ac mae Teilo wedi rhoi ei enw i tua 45 o fannau o Gymru i Lydaw.

Roedd y dref wrth galon Teyrnas Deheubarth a fu'n rymus am gyfnodau trwy'r Oesoedd Canol cynnar, a Dinefwr (sydd yn awr yn gartref i ryw ŵyl chwedleua eithaf enwog) oedd un o brif ganolfannau Brenhinoedd a Thywysogion Deheubarth. Bu arweinwyr enwog fel Hywel Dda, Rhys ap Tewdwr, Yr Arglwydd Rhys a Rhys Gryg yn rheoli o'r castell gwych ar y bryn uwchlaw Afon Tywi.

Heddiw mae Llandeilo yn dref wledig brysur, nodweddiadol o Sir Gaerfyrddin. Mae'n adnabyddus fel dipyn o ganolfan siopa - mae yma ddigon o siopau lleol i blesio'r siopwyr brwd mwyaf beirniadol. O bwŷcs ffasiwn fel Chess and Toast (Llandeilo yw cartref siop gyntaf erioed y brand ffasiwn) i orielau celf fel Oriol Mimosa a Fountain Fine Art, ynghyd â siopau anrhegion fel The Cuckoo's Nest, The Little Welsh Dresser a Crafts Alive, mae siopau Llandeilo yn fywiog ac amrywiol.

Os bydd arnoch awydd tamed i'w fwyta, cwpaned o goffi neu rywbeth ychydig yn gryfach, mae gan Llandeilo lawer o fannau yfed a bwyta gwych. Yng Ngwesty'r Cawdor, yng nghanol y dref, mae neuadd fwyd fawr sydd ar agor ar gyfer prydau fin nos a



diodydd. Neu pam na ewch chi i Maryellen's@139, The Hangout neu'r Ginhaus am bryd gwych amser cinio, paned o goffi, ac, o ran y Ginhaus, dewis gwych o jin lleol a rhyngwladol (gyda thonic, os nad ydych am brynu potel!)

**GYDA'R ATYNIADAU LLEOL RHYFEDDOL
FEL AFON TYWI HARDD, COED HYNAFOL
TREGIB, PARC CENEDLAETHOL BANNAU
BRYCHEINIOW GER LLAW, AC, WRTH GWRS,
SAFLE GWYCH 800 ERW'R YMDDIRIEDOLAETH
GENEDLAETHOL YN NINEFWR, NID OES
PRINDER PETHAU I'W GWNEUD A'U GWELD
YN LLANDEILO FAWR A'R CYFFINIAU.**

© Lluniau Lleucu

